



Adroddiad
CATS*
CYMRU
• 2021

*Cathod a'u Ystadegau



3	Methodoleg
4	Croeso
6	Cyflwr y genedl
7	Perchnogion cathod - teuluoedd/cartrefi
8	Proffil perchnogion cathod
9	Y farchnad gathod
9	O ble mae pobl yn cael cathod?
11	Pa fathau o gathod sydd gan bobl?
12	Ardystio brid
14	Gofal milfeddygol
14	Ymweliad â'r milfeddyg
16	Yswiriant
16	Brechiadau
18	Triniaethau ataliol
20	Niwtro
21	Microsglodyn
22	Iechyd a deiet
24	Ymddygiad a lles cathod
24	Ffynonellau gwybodaeth gofal cathod
25	At bwy mae pobl yn troi i gael cyngor am gathod?
26	Amgylchedd cath
26	Dan do v awyr agored
28	Cathod yn y nos
29	Adnoddau ar gyfer cathod
30	Ymddygiad a straen
32	Atal cathod rhag niwed
32	Blodau sy'n wenwynig i gathod
33	Tân Gwyllt
34	Cwmniaeth cathod a heriau i berchnogion
34	Beth yw'r rhesymau pam bod gan bobl gath?
36	Fe wnaeth cathod ein helpu yn fawr yn ystod y pandemig
37	Mae cathod yn rhan o'r teulu ac yn bwysig yn ein bywydau bob dydd
38	Yn anffodus, i rai pobl yn y DU, nid yw'n bosibl iddyn nhw fod yn berchen ar gath
40	Beth yw'r cam nesaf?
41	Crynodeb o ystadegau Cymru
43	Gwasanaethau Cats Protection

Methodoleg

Am yr ail flwyddyn rydym wedi comisiynu asiantaeth allanol ac annibynnol, Basis Research, i gynnal yr ymchwil a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Defnyddiwyd arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth ymhlith cynulleidfa gynrychioliadol genedlaethol o bobl dros 18 oed yn y DU, gan ganiatáu inni nodi cyfran perchnogion cathod yn y DU. Gwnaethom hefyd arolwg manylach ymhlith perchnogion cathod. Gwnaed hyn rhwng 8 Mawrth 2021 a 12 Ebrill 2021. Mae 'Yn ystod y 12 mis diwethaf' yn yr adroddiad yn cyfeirio at y cyfnod Mawrth 2020 i Fawrth 2021. Oni nodir yn wahanol, mae data cymharol yn yr arolwg hwn yn defnyddio data o CATS 2020.

Ar y cyfan, cynhaliwyd 10,519 o gyfweiliadau yn y DU. Roedd y rhain yn cynnwys sampl gynrychioliadol genedlaethol o 3,585 o oedolion. Cynhaliwyd cyfweiliadau ychwanegol gyda pherchnogion cathod, gan ddod â chyfanswm y perchnogion cathod a gafodd eu cyfweild i 6,352. Cafwyd hwb rhanbarthol o ran perchnogion cathod gan ddod â chyfanswm y nifer yng Nghymru i 830.

BASIS

*Rhagor o wybodaeth ar gael ar gais

Tynnwyd pob llun gan Ciaran McCrickard oni nodir fel arall.

Croeso i ail rifyn blynyddol o Cathod a'u Ystadegau (CATS) Cymru @ 2021

Croeso i CATS Cymru 2021 - yr arolwg mwyaf cynhwysfawr o berchnogion cathod a gynhaliwyd yng Nghymru.

Cynhaliwyd yr arolwg eleni oddeutu blwyddyn ar ôl dechrau'r cyfnod cyfyngiadau symud cyntaf, gan roi mewnwelediad hanfodol i sut mae cathod a'u perchnogion wedi ymdopi yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Amlygwyd poblogrwydd - a phwysigrwydd - anifeiliaid anwes yn helaeth eleni, ac mae CATS Cymru 2021 wedi dod o hyd i dystiolaeth ar gyfer hyn, gyda 32% o aelwydydd Cymru yn berchen ar gath, cynnydd o 26% ers y llynedd gan olygu cynnydd o 80,000 o gathod. Ac yn rhyfeddol mae 86% o berchnogion cathod yn dweud bod eu cath yn rhoi llawer o lawenydd iddyn nhw.

Mae'n wych bod cymaint o bobl yn mwynhau bod yn berchen ar gathod; fodd bynnag, gyda thua 62,000 o gathod yng Nghymru heb gofrestru gyda milfeddyg eto, mae hefyd yn creu nifer o heriau lles sy'n cael eu harchwilio yn yr adroddiad hwn. Eleni, rydym hefyd wedi edrych yn helaeth ar y ffyrdd newidiol y mae pobl yn cael eu cathod a sut fath o gathod ydyn nhw.

Mae CATS Cymru 2021 yn rhoi mewnwelediad i fywydau a lles cathod ac yn darparu sylfaen inni fonitro a yw'r newidiadau o COVID-19 yn cynrychioli newid dros dro, neu newid ehangach yn ein perthynas â chathod.

Rydym am wneud y byd yn lle gwell i gathod a bydd cael mwy o ddata amdanynt yn caniatáu inni eu helpu nhw a'u perchnogion yn fwy effeithiol.

Dr Maggie Roberts BVM & S MRCVS

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Milfeddygol Cats Protection





“Mae CATS 2021 wedi canfod bod 68% o’r cathod a chathod bach a gafodd eu prynu ledled y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cael eu canfod ar-lein. Yn sicr, mae siopa ar-lein wedi dod yn rhan enfawr o’n bywydau – yn enwedig yn ystod y pandemig.

Ond wrth ystyried cathod a chathod bach, mae risgiau’n gysylltiedig â siopa ar-lein. Mae’n ddychrynlyd pa mor hawdd yw hi i werthwyr diegwyddor weithredu ar-lein a blaenoriaethu elw yn hytrach na lles cathod bach. Yn anffodus, mae’n bosibl y bydd defnyddwyr yn cael eu twyllo i brynu cathod bach sy’n rhy ifanc neu’n sâl, gan eu gadael â biliau milfeddyg uchel neu, mewn rhai achosion, cath fach sy’n marw’n drasig. Mae gwaith Cats Protection â’r llywodraeth a’i gyngor helaeth i ddefnyddwyr yn chwarae rhan hanfodol i sicrhau bod darpar berchnogion cathod yn cael anifail anwes iach a hapus ac yn rhoi terfyn ar gam-werthu anifeiliaid anwes.”

Deborah Meaden

Entrepreneur, Personoliaeth ar y teledu ac ymgyrchydd dros les anifeiliaid




Cyflwr y genedl

Mae nifer yr aelwydydd sy'n berchen ar gath yng Nghymru¹ wedi cynyddu eleni, gyda 32% yn berchen ar gath (cynnydd o 26%).

Bu cynnydd yn nifer y cathod sy'n eiddo i ddinasyddion Cymru (690,000 - i fyny o 610,000), cynnydd o 80,000 o gathod.

Mae cathod cyfartalog pob cartref wedi gostwng yng Nghymru, o 1.7 i 1.6 gyda 58% ag un gath a 42% yn berchen ar ddwy gath neu ragor.




¹ Cwestiwn a ofynnwyd: Ar hyn o bryd, a oes gennych chi gath/cathod (sy'n byw gyda chi)?/Sawl cath sydd gennych chi yn eich cartref?

Sylfaen: Cyfanswm marchnad y DU (n = 3,585), Cymru (n = 181), Lloegr (n = 3,009), Gogledd Iwerddon (n = 108), yr Alban (n = 288).

Cyfrifiad enghreifftiol: mae 26% yn berchen ar gath yn y DU x 27.8m o aelwydydd y DU ** x 1.5 o gathod yn eiddo i bobl ar gyfartaledd = 10.8m o gathod yn eiddo i bobl ledled y DU ** Ffynhonnell: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/datasets/familiesandhouseholds/familiesandhouseholds Dadansoddiadau rhanbarthol Lloegr yn unig. Maint sampl yn rhy fach i ranbarthau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Cyfran perchnogion cathod yn ôl gwlad y DU




Mae lefelau perchnogaeth cathod yn amrywio ledled y DU gan amrywio o 32% o aelwydydd yng Nghymru i 20% yn yr Alban.



Perchnogion cathod - teuluoedd/cartrefi


Er ein bod wedi gweld mwy o berchnogaeth cathod eleni, mae proffil perchnogion yn parhau i fod yn eang - **nid oes y fath beth â pherchennog nodweddiadol.** Fodd bynnag, mae perchnogion Cymru yn sylweddol fwy tebygol o fod yn fenywod na gwledydd eraill y DU.

Proffil perchnogion cathod²



42% o drigolion cefn gwlad yn berchen ar gath

29% o drigolion trefol yn berchen ar gath



Mae'n debyg bod gan y pandemig ran i'w chwarae yn y cynnydd mewn perchnogaeth, gyda chyfran sylweddol o bobl wedi cael cath (neu gath arall) yn ystod y 12 mis diwethaf. Cafodd 16% o berchnogion cathod o leiaf un gath yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd 6% o berchnogion gath yn uniongyrchol oherwydd COVID-19.

² Cwestiwn a ofynnwyd: Rhyw/oedran/rhanbarth - Gan feddwl am eich prif gartref (lle rydych chi'n byw y rhan fwyaf o'r amser), pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r lleoliad orau? Wrth feddwl am eich prif gartref, beth yw'r sefyllfa berchnogaeth?/Pryd wnaethoch chi gaffael eich cath ?/Ac yn awr, ystyriwch COVID-19 yn benodol mewn perthynas â'ch cath, pa un o'r isod, os o gwbl, sy'n berthnasol i chi?

Proffil perchnogion cathod

Mae gan berchnogion cathod yng Nghymru broffil oedran tebyg i aelwydydd Cymru yn gyffredinol, ond maent yn fwy tebygol o fod yn iau. Mae 88% o berchnogion cathod Cymru o dan 65 oed, o'i gymharu â 72% o aelwydydd Cymru.

Mae'r rhai sydd wedi cael cath yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf yn tueddu i fod yn iau na phroffil cyffredinol perchnogion cathod Cymru gyda 39% rhwng 18 a 34 oed o'i gymharu ag un rhan o dair (32%) o holl berchnogion cathod Cymru.

Mae nifer yr aelwydydd sy'n berchen ar gath yng Nghymru wedi cynyddu³

	Holl berchnogion cathod Cymru	Cartrefi Cymru	Y rhai a gafodd gath yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf
18 - 24	13%	6%	18%
25 - 34	19%	14%	21%
35 - 44	17%	16%	24%
45 - 54	21%	16%	14%
55 - 64	18%	19%	14%
65+	12%	28%	8%

³ Cwestiwn a ofynnwyd: Ar hyn o bryd, a oes gennych chi gath/cathod (sy'n byw gyda chi)?/Sawl cath sydd gennych chi yn eich cartref?



Y farchnad gathod




Mae COVID-19 a'r cyfyngiadau symud dilynol wedi cael effaith sylweddol ar berchnogaeth anifeiliaid anwes, gyda galw cynyddol a phrisiau uchel yn cael eu hadrodd yn aml yn y cyfryngau.

O ble mae pobl yn cael cathod?⁴


Yng Nghymru, mabwysiadwyd 26% o gathod anwes o ganolfan achub/ailgartrefu neu loches anifeiliaid; ffrind neu deulu a phrynwyd 21%, Cafwyd 19% gan gymydog.

Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth cathod lle y




(Cafwyd y 240,000 o gathod ychwanegol o ffynonellau eraill.)


O ble mae pobl yn cael cathod?⁵



Wedi'i fabwysiadu o ganolfan achub/ailgartrefu/lloches anifeiliaid yn y DU




Wedi'i gael gan gymydog, ffrind neu deulu




Wedi'i brynu (nid bridiwr arbenigol yn y DU)*



Wedi dod o hyd ar grwydr a'u cartrefu



Cath fach cath oeddwn yn berchen arni eisoes



Wedi'i brynu gan fridiwr arbenigol yn y DU

(Cafwyd yr 17% ychwanegol o gathod o ffynonellau eraill)

⁴ Cwestiwn a ofynnwyd: O ble cawsoch chi/o ble y gwnaethoch fabwysiadu eich cath?

⁵ ibid

* Prynwyd (nid bridiwr arbenigol yn y DU) = Prynwyd gan rywun nad oeddwn yn ei adnabod (8%) + Prynwyd gan gymydog/teulu ac ati. (4%) + Pynu o siop anifeiliaid anwes (2%) + Pynu gan fridiwr arbenigol dramor (1%).



Effaith COVID-19 neu newidiadau mewn tueddiadau?

A llawer o ganolfannau achub yn cael eu hachub, gan gynnwys Cats Protection, yn rhedeg ar gapasiti llai yn ystod y cyfyngiadau symud, mae COVID-19 wedi cael effaith fawr ar ble yn y DU y mae pobl yn cael eu cathod. Yng Nghymru fodd bynnag - mae cyfran y cathod sy'n cael eu mabwysiadu o ganolfannau achub wedi cynyddu - gyda 31% o gathod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cael eu mabwysiadu o ganolfan achub, o'i gymharu â 27% o'r rhai a gafwyd fwy na phum mlynedd yn ôl. Mae canran y cathod a gafwyd hefyd wedi cynyddu gyda 28% o'r cathod a gafwyd yn cael eu prynu yn ystod y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â 18% o'r rhai a gafwyd fwy na phum mlynedd yn ôl.

Mae gweddill y DU wedi gweld canran y bobl sy'n mabwysiadu cath yn gostwng tra bod y ganran sy'n prynu wedi cynyddu. Yng Nghymru, mae'r ganran sy'n prynu eu cath wedi cynyddu fel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond, wrth fynd yn groes i'r duedd yng ngweddill y wlad - mae canran y bobl sy'n mabwysiadu yn ystod y blynyddoedd diwethaf hefyd wedi cynyddu. Ymddengys yn bennaf bod hyn yn cael ei sbarduno gan ostyngiadau yng nghanran y cathod sy'n cael eu cymryd i mewn fel crwydriaid neu'n cael eu cymryd gan gymdogion, ffrindiau a theuluoedd; mae'r ddwy ffynhonnell hyn o gaffael cathod wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf – bydd angen monitro a yw hyn yn ddigwyddiad tymor byr neu'n dueddiad hirdymor.

Amcangyfrifwn o'r data hwn y cafwyd 89,000 o gathod yng Nghymru **yn ystod y 12 mis diwethaf**.

33% wedi'u prynu

28% wedi'u mabwysiadu

15% wedi'u cymryd

(Cafwyd y 24% o gathod ychwanegol o ffynonellau eraill)

Diolch i Gabriella Clare Marino am y llun.



Pa fathau o gathod sydd gan bobl?

Cath gyffredin v pedigri

Mae 71% o berchnogion yng Nghymru yn nodi bod eu cathod yn gathod cyffredin, 18% yn gathod pedigri a 5% yn gathod croesfrid.

Mae'n ymddangos bod tuedd gynyddol tuag at gathod pedigri - o'r cathod a gafwyd fwy na phum mlynedd yn ôl, roedd 74% yn gathod cyffredin o gymharu â dim ond 61% yn y flwyddyn ddiwethaf.

Canran y cathod pedigri, y cathod cyffredin a'r croesfridiau a gafwyd dros amser

	Cyfanswm poblogaeth cathod anifeiliaid anwes	Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	1-2 flynedd yn ôl	3-5 mlynedd yn ôl	Mwy na 5 mlynedd yn ôl
cath gyffredin/domestig blew hir / blew byr	71%	61%	67%	73%	74%
Pedigri ⁷	18%	26%	19%	17%	16%
Croesfrid (ddim yn gath gyffredin)	5%	8%	4%	4%	5%
Ddim yn gwybod	7%	6%	10%	6%	5%

⁶ Cwestiwn a ofynnwyd: Pa frid yw eich cath? Cath gyffredin/domestig blew hir neu flew byr (e.e. tabi, du, sinsir ac ati)/ Pryd wnaethoch chi gaffael (e.e. prynu /mabwysiadu) eich cath?

⁷ Mae Pedigri yn cynnwys y rheini sydd wedi'u dewis o restr neu, os nad oedd un o'r rheini yn addas, roedd maes testun agored ar gael - mae hwn wedi'i hidlo ar gyfer unrhyw gathod sy'n amlwg ddim yn rhai pedigri.

Ardystio brid

Dim ond y cathod hynny sydd â gwaith papur swyddogol (tystysgrif gan gymdeithas fridiau) y gellir eu hystyried yn gathod pedigri gwirioneddol.

Mae gwaith papur, wedi'i gofrestru gyda chorff cofrestru cath ffansi neu bedigri yn gwarantu dilysrwydd yr achau y mae perchennog wedi'i brynu. Lle mae achau wedi'u cofrestru, bydd llinach y gath yn ogystal â thystiolaeth o unrhyw brofion genetig sy'n ofynnol i wirio am glefydau etifeddol gan y ddau riant ar gael. Mae hyn yn sicrhau bod y gath wedi'i bridio gan rieni yn rhydd o afiechyd a allai fel arall effeithio'n negyddol ar iechyd a lles y gath unigol.


Diffiniadau

Mae pedigri yn frîd penodol o gath a gynhyrchir trwy fridio dethol, gyda'r ddau riant o'r un brîd - byddai'r gath wedi'i chofrestru gyda chorff llywodraethu a chofnodir ei llinach.

Caiff cath croesfrid ei chynhyrchu trwy fridio gyda gwahanol fridiau - er enghraifft dwy gath pedigri neu cath pedigri a chath gyffredin.

Cath gyffredin yn cael ei gynhyrchu trwy fridio nad yw'n ddetholus ac nid yw'n bedigri nac yn drawsfrid.





Yn anffodus mae bridio dethol i gynnal bridiau cydnabyddedig yn aml yn dod ar gost i'r gath. Oherwydd bod rhai nodweddion yn cael eu dewis yn gyson ac yn ailadroddus, mae'r siawns y bydd anomaledau genetig annymunol a niweidiol yn aml yn cael eu mynegi. Felly, er eu bod lawer gwaith yn ddrytach na chath gyffredin - gall cath pedigri wynebu mwy o gyflyrau iechyd, ac mewn rhai achosion, gall ansawdd eu bywyd fod yn llawer is.

Er enghraifft, mae Cathod Prydeinig Blew Byr a Phersiaid yn dueddol o gael problemau iechyd oherwydd eu bod yn bracioeffalig neu mae ganddynt wyneb gwastad. Gallant ddiodef nid yn unig o anawsterau anadlu oherwydd eu trwyn byr a'u ffroenau bach, ond hefyd broblemau llygaid cysylltiedig, heintiau ar y croen a gallant gael anhawster bwyta. Yn ogystal, mae gan Bersiaid flew mân hir iawn sy'n gallu clymu'n hawdd, gan ei gwneud hi'n anodd i'r gath dwtio ei hun.

Mae'n bwysig sicrhau bod pobl sy'n prynu'r math hyn o gathod yn ymwybodol o gyflyrau iechyd posibl y cathod - yn aml, maent yn ddrud iawn - y maent yn eu prynu ac nad yw tueddiadau ar gyfer brîd cath penodol yn dod ar draul lles y gath.

Sarah Elliott - Swyddog Milfeddygol Canolog
Cats Protection

Gofal milfeddygol - pa mor dda ydyn ni'n gofalu am ein cathod?

Ymweliad â'r milfeddyg⁸

Nid oes unrhyw newid eleni ynghylch canran y cathod sydd wedi'u cofrestru gyda milfeddyg, sy'n parhau i fod yn 91%. Mae hyn yn golygu nad yw oddeutu 62,000 o gathod (9%) wedi'u cofrestru gyda milfeddyg.

Mae cofrestrriad milfeddyg yn is ar gyfer perchnogion gwrywaidd (13% heb eu cofrestru), gradd cymdeithasol DE (15% heb ei gofrestru)

a'r rhai sy'n ddi-waith (18% heb eu cofrestru). Mae hwn yn fater amlfactoraidd a chymhleth y mae angen mynd i'r afael ag ef.

Mae perchnogion hŷn (55+) yn fwy tebygol o ymweld â'r milfeddyg yn fwy rheolaidd na pherchnogion iau. Mae gradd gymdeithasol hefyd yn ffactor gydag ABC1C2 yn llawer mwy tebygol o ymweld fel mater o drefn na DE - efallai y bydd angen mwy o gymorth ar y rheini mewn amgylchiadau cymdeithasol is i drefnu ymweliadau rheolaidd a'r milfeddyg.

Mae'r cathod hynny yr eir a hwy at filfeddyg yn rheolaidd yn llai tebygol o ddiodeff straen.

Dosbarth cymdeithasol-economaidd yw gradd gymdeithasol fras ac mae ganddo chwe categori A, B, C1, C2, D ac E. Mae'n berthnasol i bob cartref yng Nghymru ac mae'n seiliedig ar bennu categori cyflogaeth y prif enillydd incwm mewn aelwyd.

9%

o gathod heb gofrestru gyda milfeddyg

o berchnogion gwrywaidd

13%

heb gofrestru eu cathod

Gradd gymdeithasol DE

15%

heb gofrestru eu cathod

Yn ddi-waith

18%

heb gofrestru eu cathod




Gall ymweld â'r milfeddyg beri straen i gathod - gall eu hymateb i'r straen hwn wneud hi'n broblemus i'w harchwilio a'u trin. Gall gwneud y filfeddygfa'n amgylchedd mwy cyfeillgar i gathod wella profiad cyffredinol eich cath yn fawr a lleihau lefelau straen. Gall cefnogi perchnogion i hyfforddi eu cath i fod yn gyffyrddus gyda chlodwr cath, a thrwy wneud newidiadau syml fel defnyddio fferomon sythetig yn rheolaidd, technegau trin ysgafn a darparu rhywle i'r gath guddio tra yn y clinig, gall pob un o'r awgrymiadau hyn helpu i wneud ymweliad eich cath â'r milfeddyg yn brofiad llaer mwy cadarnhaol ac yn llai o straen.

Daniel Cummings, Swyddog Ymddygiad Cats Protection


⁸ Cwestiwn a ofynnwyd: A yw'ch cath wedi'i chofrestru â milfeddyg? Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor aml rydych chi'n tueddu i fynd at y milfeddyg?

Y pum prif reswm dros beidio ag ymweld â milfeddyg cyn ac yn ystod pandemig⁹

 Cyn COVID-19...



Trwy gydol COVID-19...



Roedd cost ymweld â milfeddyg yn llai o bryder eleni ar 27%, cwmp o 31% yn ymchwil CATS Cymru 2020.

Mae canran fach o berchnogion, 5%, yn poeni y bydd milfeddyg yn gwerthu triniaethau iddynt na wnaethant ofyn amdanynt ac mae hyn yn rhwystr i rai. P'un a yw hyn yn gamsyniad cyffredin neu a yw'n wir, mae hwn yn faes lle mae angen sicrwydd perchennog gan y proffesiwn milfeddygol i sicrhau nad yw'r sector hwn o berchnogion cathod yn peryglu lles eu cathod.

Mae perchnogion hefyd yn nodi bod eu cathod yn teimlo gormod o straen pan yn ymweld â'r milfeddyg (20%).

⁹ Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r canlynol, os o gwbl, sy'n eich hatal rhag mynd â'ch cath at y milfeddyg mor aml ag yr hoffech chi efallai?/Unwaith eto, gan feddwl nawr am y flwyddyn ddiwethaf yn unig, pa un o'r canlynol, os o gwbl, wnaeth eich rhwystro rhag mynd â'ch cath at y milfeddyg mor aml ag yr hoffech chi efallai?

¹⁰ www.rcvs.org.uk/news-and-views/publications/coronavirus-economic-impact-on-veterinary-practice-6/



Effaith COVID-19 ar ymweliadau â'r milfeddyg


Er bod bron pob perchennog cath yn honni ei fod yn ymweld â'r milfeddyg o dan amgylchiadau arferol, mae'r pandemig wedi gweld cwmp yn y rhai sy'n mynd at y milfeddyg ar gyfer archwiliad blynyddol. Tra bod 48% o berchnogion yn dweud eu bod fel arfer yn mynd am ymweliad arferol â'r milfeddyg bob blwyddyn, mae hyn wedi gweld gostynigad o 38% yn gwneud hynny yn ystod blwyddyn ddiwethaf y pandemig COVID-19, sy'n golygu nad yw oddeutu 0.4 miliwn o gathod yn ymweld â'r milfeddyg fel mater o drefn.

Yn ddi-ddorol, gostyngodd y pryder ynghylch costau yn ystod y pandemig ond **dywedodd 15% o'r holl berchnogion nad ydynt yn mynd at y milfeddyg mor aml ag yr hoffent, y rheswm na wnaethant fynd oedd oherwydd mynediad cyfyngedig gan filfeddygon oherwydd COVID-19.** Yn ddi-ddorol, nododd arolwg Coleg Brenhinol y Llawfeddygon Milfeddygol (RCVS) ym mis Mawrth 2021 mai dim ond 16% o bractisau'r DU oedd yn darparu gwasanaeth arferol¹⁰.


Yswiriant¹¹

Mae'r pryder gostyngol ynghylch costau milfeddyg yn cyd-daro â chynnydd yng nghyfran y perchnogion sydd ag yswiriant anifeiliaid anwes (39% i fyny o 37%). Mae'r cynnydd hwn mewn yswiriant anifeiliaid anwes yn cael ei achosi gan berchnogion cathod iau (18-34 oed) gyda chyfran sylweddol uwch (53%) yn yswirio eu cath o gymharu â grwpiau oedran eraill.


Y rhai sy'n defnyddio yswiriant



18 - 34



35 - 54



55+

Brechiadau

Mae 63%¹² (0.4 miliwn) o berchnogion yn dweud bod eu cath wedi cael y brechiadau diweddaraf, gostyngiad sylweddol o'i chymharu â'r llynedd (71%). Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r mynediad cyfyngedig i filfeddygon yn ystod COVID-19. Dywed 9% o berchnogion nad yw eu cath wedi derbyn brechiadau yn gyfan gwbl gydag 20% arall yn dweud nad yw eu cath wedi cael y brechiadau diweddaraf. Mae 8% o berchnogion yn dweud nad ydyn nhw naill ai'n gwybod pa frechiadau y mae eu cath wedi'u cael neu ddim yn gwybod pa frechiadau y dylai eu cath eu cael. Mae hyn yn awgrymu nad yw hyd at 0.3 miliwn o gathod yn elwa o'r amddiffyniad y gall brechiadau arferol ei gynnig.



¹¹ Cwestiwn a ofynnwyd: Oes gennych chi yswiriant anifeiliaid anwes ar gyfer eich cath?

¹² Cwestiwn a ofynnwyd: A yw'ch cath wedi cael eu brechiadau diweddaraf (h.y. a ydynt wedi cael y brechiadau atgyfnerthu sy'n berthnasol i'w hoedran)?

Y cysylltiad rhwng mynediad cyfyngedig i filfeddygon a brechiadau

3%


Nid wyf yn gwybod pa frechiadau y dylai fy nghath fod wedi'u cael

5%

Nid wyf yn gwybod pa frechiadau y mae fy nghath wedi'u cael

9%

Nid yw fy nghath wedi cael unrhyw frechiadau



63%

Mae fy nghath wedi cael y brechiadau diweddaraf

20%

Mae fy nghath wedi cael rhai brechiadau ond nid y rhai diweddaraf





Mae'r rhai yn y grwp cymdeithasol C2DE yn llai tebygol o gael y brechiadau diweddaraf (42% heb gael y rhai diweddaraf o gymharu â 32% o berchnogion yn ABC1).

Triniaethau ataliol¹³


Er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf, mae perchnogion i raddau helaeth yn parhau i ddweud bod eu cathod wedi cael y triniaethau milfeddygol ataliol diweddaraf ar gyfer eu cath/od. Mae perchnogion yn parhau i ddefnyddio triniaethau llyngyr a chwain ar lefelau tebyg i'r llynedd, heb unrhyw wahaniaethau sylweddol o ganlyniad i COVID-19.

Nid yw thros draean o gathod yn cael eu trin yn rheolaidd ar gyfer chwain a llyngyr - nid yw 36% o berchnogion yn trin chwain yn rheolaidd ac nid yw 36% yn trin llyngyr yn rheolaidd - ond mae bron i hanner y perchnogion nad ydyn nhw'n trin chwain a llyngyr yn rheolaidd yn trin eu cathod pan welant barasitiaid (17% ar gyfer chwain ac 16% ar gyfer llyngyr).

Cathod nad ydyn nhw'n cael eu trin yn rheolaidd ar gyfer chwain neu llyngyr



¹³ Cwestiwn a ofynnwyd: Pa mor aml ydych chi'n tueddu i ddiogelu eich cath rhag chwain?/Pa mor aml ydych chi'n tueddu i ddiogelu eich cath rhag mwydod?






Dylid teilwra triniaeth ar gyfer chwain a llyngyr i gath unigol ar sail eu hamlygiad i chwain a llyngyr a'r risg ddilynol. Felly mae Cats Protection yn argymhell triniaeth ataliol yn unol â chanllawiau Cwnsler Gwyddonol Ewropeaidd Parasitiaid Anifeiliaid Anwes (ESCCAP) ar gyfer pob cath.

www.esccapuk.org.uk/guidelines-uk/

Niwtro¹⁴

Mae cyfran y cathod sy'n cael eu niwtro ar lefel gymharol â 2020 (90% - wedi cynyddu o 89%). Mae cyfran y cathod sy'n cael eu niwtro yn is ymhlith cathod a gafwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â'r holl gathod sy'n eiddo i bobl - mae 77% wedi'u niwtro a dyw 19% heb gael eu niwtro (4% ddim yn gwybod). Mae **cathod dan do yn unig yn llai tebygol o gael eu niwtro** (o'i gymharu a chathod sy'n byw y tu mewn ac yn yr awyr agored).



Y cathod sy'n llai tebygol o fod wedi cael eu niwtro

Mae perchnogion cathod iau yn sylweddol llai tebygol i niwtro eu cath. Nid yw 14% o bobl ifanc 18-34 oed wedi niwtro eu cath, o gymharu ag 8% o bobl 35-54 oed a 4% o'r bobl 55+.

Mae amcangyfrif o 0.1 miliwn o gathod yn dal heb eu niwtro. Mae pob **cath fenywaidd heb gael ei niwtro dros bedwar mis oed mewn perygl o feichiogrwydd damweiniol a thorllwyth diangen o gathod bach¹⁵.**

Mae rhywfaint o newyddion cadarnhaol, er gwaethaf y pandemig a mynediad cyfyngedig at filfeddygon, sef bod nifer y cathod sydd wedi eu niwtro yn bedwar mis oed neu'n iau wedi cynyddu o 16% i 18%, cynnydd i'w groesawu yn y proffesiwn milfeddygol lle mae cathod yn cael eu niwtro cyn y glasoed.

¹⁴ Cwestiwn a ofynnwyd: Ydy'ch cath wedi ei niwtro/ysbaddu?

¹⁵ Arolwg o nodweddion cathod sy'n eiddo i aelwydydd yn y DU a'r ffactorau sy'n effeithio ar eu statws niwtro. JK Murray, MA Roberts, A Whitmarsh a TJ Gruffydd-Jones. Cofnod Milfeddygol (2009) 164, 137-141.



Ochr yn ochr â darparu talebau niwtro â chymhorthdal i berchnogion mewn angen, mae Cats Protection yn aelod sefydlol o CatKIND, cydweithrediad rhwng sefydliadau lles sy'n hyrwyddo niwtro cathod cyn glasoed yn bedwar mis oed. Mae CatKIND yn galw ar filfeddygon i niwtro cathod sydd yn y cyfnod cyn y glasoed er mwyn helpu i leihau nifer y torllwythi damweiniol a digroeso o gathod bach sy'n cael eu geni bob blwyddyn. Gall milfeddygon helpu trwy ymuno â Chronfa Ddata Niwtro Cathod Bach.

Jane Clements, Pennaeth
Niwtro Cats Protection

www.kind.cats.org.uk


Microsglodyn

At ei gilydd, mae cyfran y cathod sydd â microsglodyn yn debyg i'r llynedd - mae gan 0.5 miliwn o gathod (69%) ficrosglodyn ac mae 0.2 miliwn o gathod (27%) heb ficrosglodyn (nododd 4% nad oeddent yn gwybod a oedd gan eu cath ficrosglodyn)¹⁶.

Dywed nifer uchel o berchnogion bod yr wybodaeth sydd ar y microsglodyn sydd yn eu cath yn gyfredol (90% neu 0.4 miliwn o gathod¹⁷). Mae hyn yn golygu yn y rhan fwyaf o amgylchiadau y gellir cysylltu â pherchennog cath sydd ar goll neu wedi'i anafu. Fodd bynnag, dim ond 66% o berchnogion sy'n dweud bod pob un o'r tri modd cysylltu yn gyfredol - cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.



Microsglodion - cadw'r manylion yn gyfredol




¹⁶ Cwestiwn a ofynnwyd: A oes gan eich cath ficrosglodyn?

¹⁷ Cwestiwn a ofynnwyd: A yw manylion microsglodion cofrestredig eich cath yn gyfredol?/Pa rai o'r manylion ar y microsglodyn canlynol sy'n gyfredol?/Pa rai o'r manylion microsglodion canlynol sydd ddim yn gyfredol?

Iechyd a deiet

Mae cathod y genedl yn parhau i fod yn iach gyda nifer y cyflyrau iechyd a gafodd eu diagnosis yn parhau i fod ar yr un lefel â'r llynedd. Dywed mwyafrif y perchnogion (79%) nad oes gan eu cath unrhyw gyflyrau iechyd¹⁸. O'r 18% o berchnogion a ddywedodd bod gan eu cath gyflwr iechyd, gordewdra yw'r uchaf ar 3%.

Y pum prif cyflwr iechyd




18 A oes gan eich cath unrhyw un o'r problemau/cyflyrau iechyd canlynol?




Nid yw perchnogion yn fwy tebygol o feddwl bod eu cath dros bwysau¹⁹ na'r llynedd - dywed 32% eu bod yn credu bod eu cath dros bwysau, gyda 27% yn dweud eu bod yn bwysau delfrydol a 35% yn dweud eu bod o dan bwysau. Er bod bron i draean y perchnogion yn ystyried bod eu cathod yn drymach na'r pwysau delfrydol, dyw cyfran fach o berchnogion ddim yn gwybod beth yw cyflwr corff eu cath (5%) - mae milfeddygon o'r farn bod 44% o gathod dros eu pwysau neu'n ordew²⁰, felly mae'n ymddangos ar hyn o bryd bod rhywfaint o wahaniaeth rhwng canfyddiadau perchnogion a data a gasglwyd gan filfeddygon²¹.

Cyflwr corff cath²²



Mae'n ymddangos bod treulio mwy o amser gartref gyda'u cathod nid yn unig wedi gweld perchnogion yn chwarae mwy â'u cathod ond hefyd yn rhoi gormod o faldod iddyn nhw.



Dywedodd 16% o berchnogion eu bod yn rhoi mwy o ddanteithion oherwydd sefyllfa COVID-19, yn enwedig perchnogion iau.

19 Fe wnaeth perchnogion hunan-ddewis cyflwr corff eu cath ar ôl gweld lluniau a disgrifiadau i'w helpu yn seiliedig ar offeren cyflwr corff Purina.

20 Ym mhennod 4, Basic requirements for good behavioural health and welfare in cats gan | Rochlitz, t36 yn BSAVA Manual of Canine and Feline Behavioural Medicine, DF Horwitz a DS Mills, 2il argraffiad, t36 Cyhoeddwyd gan BSAVA, Woodrow House, Caerloyw.

21 PFMA Obesity Report 2019 www.pfma.org.uk/_assets/docs/White%20Papers/PFMA-Obesity-Report-2019.pdf

22 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r disgrifiadau a'r delweddau canlynol fydddech chi'n dweud sy'n adlewyrchu'ch cath orau mewn perthynas â'u maint?/I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol yngl n â chael cath/cathod?/A nawr, gan ystyried COVID-19 yn benodol mewn perthynas â'ch cath, a oes un o'r isod yn berthnasol i chi?

Ymddygiad a lles cathod

Ffynonellau gwybodaeth gofal cathod

Er ei fod yn cynyddu, dim ond 24%²³ (cynnydd sylweddol o 15%) o berchnogion sy'n cytuno eu bod yn tueddu i wneud llawer o ymchwil ar y ffordd orau i ofalu am eu cath. Eleni gwelsom fod mwy o berchnogion yn chwilio am gyngor neu wybodaeth am eu cathod bob mis o leiaf (40%, i fyny o 39%).

Mae mwy o bobl yn chwilio am wybodaeth neu gyngor am eu cathod

40%

Gofyn am gyngor neu wybodaeth am eu cath/cathod neu yn gwylio fideos ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth iddyn nhw am eu cathod.

(39% CATS Cymru 2020)

Cysylltodd dwy ran o dair o'r perchnogion (65% - dim newid) â'u milfeddyg i gael gwybodaeth a chyngor am eu cath. Mae perchnogion yn siarad fwyfwy â ffrindiau a theulu (36% i fyny o 32%) ac yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (17% i fyny o 15%) i gael cyngor, ac yn chwilio'r we (51% - i lawr o 55%).









Mae tuedd ar i fyny hefyd i'w chroesawu wrth gysylltu ag elusennau anifeiliaid (12% yn sylweddol uwch na 7%), neu'r ganolfan lle cafodd y gath ei mabwysiadu (8% i fyny o 7%) i gael cyngor. Mae gan sefydliadau lles anifeiliaid rôl hanfodol bwysig a pharhaus i'w chwarae nid yn unig wrth ddarparu gwybodaeth a chyngor da ar gyfer lles cathod, ond hefyd wrth gefnogi a chyfeirio perchnogion i'r proffesiwn milfeddygol.



²³ Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? Rwy'n tueddu i wneud llawer o ymchwil yngl n â'r ffordd orau i edrych ar ôl fy nghath/cathod.

At bwy mae pobl yn troi i gael cyngor am gathod?

2020 2021



24 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n ei ddefnyddio/ymweld yn rheolaidd wrth chwilio am y cynnwys canlynol sy'n ymwneud â chathod?

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn dod yn bwysicach ar gyfer cael gwybodaeth a chyngor am gathod, yn enwedig ymhlith perchnogion iau (pobl 18-34 oed). Pan ofynnwyd yn benodol ynghylch llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y maent yn eu defnyddio, dywed 63%²⁴ (i fyny o 59%) o'r perchnogion cathod a arolygwyd eu bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth neu gyngor yn rheolaidd. Y platfformau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir amlaf yw YouTube (30%), Facebook (26%) ac Instagram (11%). Mae'r cynnydd mwyaf yn y defnydd o TikTok, sy'n gweld cynnydd o 2% i 6% o berchnogion yn ei ddefnyddio'n rheolaidd i gael gwybodaeth am gathod. **Y perchnogion cathod iau (18-34 oed) sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf wrth ddefnyddio TikTok gyda naid o 5% i 15% wrth gymharu adroddiadau 2020 a 2021.** Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod cyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell arwyddocaol ar gyfer darparu gwybodaeth lles cathod i berchnogion. Bydd sicrhau bod cynnwys lles cathod da gan sefydliadau lles anifeiliaid yn hygyrch ar amrywiaeth eang o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn golygu bod modd cyrraedd mathau gwahanol o gynulleidfaoedd.




"Trwy gydol y pandemig mae Cats Protection wedi parhau i ddarparu cefnogaeth i berchnogion cathod trwy ei Ganolfan Gyswilt, canghennau a chanolfannau lleol. Trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor ar les cathod, helpodd yr elusen berchnogion i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer lles eu cath, p'un ai trwy awgrymu newidiadau syml yn y cartref, cynnig cyngor ar ymddygiad neu helpu gydag ail-gartrefu eu cath."

Nick de Bruxelles, Pennaeth Profiad Cwsmer
Cats Protection


Amgylchedd cath

Dan do v awyr agored²⁵

Mae mwyafrif y cathod yn mwynhau bywyd awyr agored a dan do (68%), gan fynd a dod fwy neu lai fel y mynnant. Ond mae 28% yn byw yn y ty yn unig. Mae hyn yn fwy cyffredin os yw'r perchennog yn byw mewn amgylchedd trefol a phoblog iawn (40%).




Mae mwyafrif cathod Cymru yn parhau i gael mynediad i'r awyr agored



²⁵ Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r canlynol sydd fwyaf perthnasol i'ch cath chi?





"Mae angen i rai o'r cathod y mae Cats Protection yn rhoi cartref newydd iddyn nhw fyw y tu mewn er eu diogelwch eu hunain, oherwydd cyflyrau meddygol fel firws diffyg imiwneidd mewn cathod (FIV), neu olwg neu glyw gwael. Mae'n bwysig bod cathod sy'n byw dan do yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gael eu hysgogi'n feddyliol ac yn gorfforol i fyw bywyd hapus, bodlon."

Danielle Draper, Rheolwr y Ganolfan Genedlaethol ar Fabwysiadu Cathod Cats Protection

www.cats.org.uk/indoor-cats

Cathod yn y nos

O'r cathod hynny sy'n cael mynediad i'w awyr agored, gall 49% fynd a dod yn rhwydd yn ystod y nos²⁶. Y wawr a'r cyfnos yw pan fyddant ar eu mwyaf gweithgar, yr amser pan maent yn hela cnofilod ac ysglyfaethau bach eraill.

Mae Cats Protection bob amser yn argymhell bod cathod yn cael eu cadw i mewn gyda'r nos. Nid yn unig mae'n lleihau ysglyfaethu bywyd gwyllt ond mae hefyd yn cadw'ch cath yn ddiogel. Mae cathod mewn mwy o berygl o gael eu hanafu gan draffig a chael eu lladd yn ystod y nos. Nodwyd damweiniau traffig ar y ffyrdd fel achos anaf i 4%²⁷ o gathod. Maent hefyd yn fwy tueddol o ymladd, gan fentro i diriogaethau cathod eraill, a gallant gael eu niweidio gan anifeiliaid eraill neu hyd yn oed gan bobl.

²⁶ Cwestiwn a ofynnwyd: A oes gan eich cath fynediad i'r tu allan dros nos?







²⁷ Cwestiwn a ofynnwyd: Ers cael eich cath, a yw'ch cath erioed wedi cael ei anafu?

Diolch i Eduard Skorov am y llun.



Adnoddau ar gyfer cathod

Nifer cyfartalog yr adnoddau fesul cath

		 	   +
Powlenni bwyd	2.3	2.8	4.6
Powlenni dŵr	1.7	2	2.5
Basgedi sbwriel	1.2	1.5	2.1
Pyst crafu	1.5	1.9	2
Gwlâu cathod	1.8	2.2	3.5
Cuddfannau	2.2	2.9	3.4

Eleni mae mwy o berchnogion yn cytuno eu bod yn hyderus iawn eu bod yn gwybod beth sydd orau i'w cath²⁸ (61% i fyny o 57%). Fodd bynnag, er y gallai rhai perchnogion wybod beth sydd orau, **yn sicr mae yna feysydd i'w gwella** o ran yr adnoddau y maen nhw'n eu darparu i'w cathod.

Gofynnwyd i berchnogion cathod am yr adnoddau maen nhw'n eu darparu ar gyfer eu cathod. Mae'n ymddangos bod powlenni bwyd a chuddfannau yn ddigonol hyd yn oed mewn cartrefi aml-gath, gydag o leiaf un i bob cath ac un ychwanegol ar gyfer pob un o'r adnoddau hyn²⁹. Ar gyfartaledd mae 2.9 o guddfannau a 2.8 bowlen fwyd ar gyfer cartrefi â dwy gath. **Mae basgedi sbwriel ychwanegol yn llai cyffredin.** O'r perchnogion sydd â dwy gath, nid yw 22% yn darparu basged sbwriel ac mae 33% yn darparu dim ond un fasedged sbwriel. Cydnabyddir yn eang y dylid darparu un o bob adnodd i gathod ac un³⁰ i gathod. Pan fydd cathod yn cael eu cadw dan do neu â mynediad cyfyngedig i'r awyr agored, mae'n hanfodol bod digon o fasedgedi sbwriel yn cael eu darparu i atal straen diangen.

Yr hyn sy'n peri pryder yw nad yw bron i chwarter (23%) y perchnogion yn darparu post crafu i'w cath/cathod ac nid yw bron i un o bob pump (17%) yn darparu gwely cath. I'r perchnogion hynny nad ydynt yn darparu postyn crafu, mae crafu dodrefn a charpedi yn ddiangen yn fwy tebygol o ddigwydd.

28 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno â phob un o'r datganiadau canlynol yngyn â chadw cath/cathod? / Rwy'n hyderus iawn fy mod i'n gwybod beth sydd orau i'm cath/cathod.

29 Cwestiwn a ofynnwyd: Faint o bob un o'r canlynol, os o gwbl, sydd gennych chi yn eich cartref ac sydd ar gael ar hyn o bryd i'ch cath/cathod eu defnyddio ar unrhyw un adeg?

30 BSAVA Manual of Canine and Feline Behavioural Medicine p36
www.bsavalibrary.com/content/book/10.22233/9781905319879

Ymddygiad a straen³¹

Mae'r elfen o chwarae yn bwysig i gathod a pherchnogion. Mae mwy o berchnogion yn treulio amser yn chwarae gyda'u cathod o leiaf ddwywaith y dydd (62%, i fyny o 60%). Mae'n ymddangos bod cathod dan do yn elwa fwyaf gan mai nhw yw'r cathod sydd fwyaf tebygol o chwarae â nhw. Fodd bynnag, mae yna rai cathod sydd ddim yn cael unrhyw fath o amser chwarae gyda'u perchennog bob dydd. Mae hyn yn cynnwys 46% o gathod oedrannus 11+ a 28% o gathod dan do.



"Mae'n wych deall bod mwy o berchnogion yn treulio amser yn chwarae gyda'u cathod. Pan fydd perchnogion yn chwarae gyda'u cath mae'n ffordd dda o wneud cysylltiad da ac mae'n bwysig er lles y gath. Mae chwarae'n helpu i ennyn ymddygiad hela cath sy'n achosi iddynt ryddhau endorffinau neu 'hormonau hapus'. Mae'n bwysig iawn i gathod o bob oed chwarae - mae'n ffordd wych i gathod ddefnyddio eu hegni, cadw'n heini ac yn iach a chadw eu hymennydd yn effro ac yn egniol. Mae'r gemau gorau yn annog cathod i stelcian, sboncio, hela ac ystumio gwrthrychau gyda phawen mewn ffordd ddiogel."


Nicky Trevorrow – Rheolwr
Ymddygiad Cats Protection

www.cats.org.uk/cats-and-play

³¹ Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno â phob un o'r datganiadau canlynol yngl n â chael cath/cathod? Mewn wythnos arferol, pa mor aml ydych chi'n gwneud pob un o'r canlynol gyda'ch cath?

Ymddengys bod yr amser cynyddol y mae perchnogion wedi'i dreulio gyda'u cathod dros y 12 mis diwethaf wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad cathod, gyda llai o gathod yn dangos y mathau o ymddygiadau digroeso a welir yn aml oherwydd straen e.e. gollwng dŵr y tu allan i'r fasged sbwriel, neu cuddio o amgylch y ty am gyfnodau hir (38% o gathod yn arddangos o leiaf un ymddygiad o straen, i lawr o 46%). Er gwaethaf hyn, mae cathod yn dal i ddangos arwyddion o straen.

Y chwe ymddygiad straen uchaf 2021 v 2020³²



Gall cathod eraill ar yr aelwyd fod yn destun straen a dengys ein canfyddiadau, er ei bod yn ymddangos bod cathod yn yr un cartref yn cytuno ychydig yn well na'r llynedd, mae 10% o berchnogion yn dal i nodi nad yw eu cathod yn cytuno neu'n ymladd.



O'r cathod yr oedd eu perchnogion yn bryderus am y pandemig, roedd 38% yn arddangos o leiaf un ymddygiad o straen, o'i gymharu â 33% o gathod nad oedd eu perchnogion yn bryderus yn eu cylch.

³² Cwestiwn a ofynnwyd: Wrth feddwl am y 12 mis diwethaf, pa un o'r canlynol y mae'ch cath yn tueddu i'w wneud, o leiaf peth o'r amser?

Atal cathod rhag niwed³³

Fe wnaethon ni hefyd ofyn i berchnogion am anafiadau neu ddamweiniau a gafodd eu cathod. **Diolch byth nad yw mwyafrif y cathod (75%) erioed wedi cael eu hanafu.** Gwelsom fod un o bob pedair cath (25%) wedi dioddef anafiadau neu ddamweiniau sylweddol. Roedd 9% o'r rhain yn ymladd â chathod eraill (nid o'r un cartref) a 6% gydag anifeiliaid eraill.



Mae Cats Protection yn darparu cyngor ar blanhigion, a rhestrau helaeth o blanhigion blodau gwenwynig a diogel yn yr awyr agored, dan do ac wedi'u torri.

www.cats.org.uk/dangerous-plants

Blodau sy'n wenwynig i gathod³⁴

Dim ond 55% o berchnogion cathod sy'n ymwybodol y gall liliâu fod yn wenwynig i gathod. Fodd bynnag, mae perchnogion **Cymru yn sylweddol fwy tebygol o fod yn ymwybodol na gwledydd eraill y DU (47%).** Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhai sydd wedi'u cofrestru gyda milfeddyg (57%) o gymharu â'r rhai nad ydynt wedi'u cofrestru (33%).

Mae liliâu yn wenwynig iawn i gathod. Er y gall cath ymddangos nad oes ganddi ddi-ddordeb yn eu bwyta, mae risg bob amser y gallant ddod i gysylltiad â phail y blodyn trwy rwbio yn ei erbyn a llyfu eu ffwr yn ddifeddwl. Mae pob rhan o blanhigion y lili yn wenwynig i gathod os caiff ei lynu, a gall bwyta ychydig bach ohono arwain at gael ei wenwyno'n ddifrifol.

³³ Cwestiwn a ofynnwyd: Ers cael eich cath, a yw'ch cath erioed wedi cael ei anafu?

³⁴ Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r blodau poblogaidd canlynol, os o gwbl, ydych chi'n gwybod sy'n wenwynig i gathod?


Tân Gwyllt³⁵

Am y tro cyntaf eleni gwnaethom ofyn cwestiynau am dân gwyllt gan fod Cats Protection yn codi ymwybyddiaeth ac yn ymgyrchu ar y pwnc hwn.

O'r rhai sydd wedi gweld eu cathod yn profi tân gwyllt, mae ychydig dros hanner (51%) yn nodi bod eu cath wedi cael ei heffeithio ganddyn nhw.

Dyweddodd perchnogion yn fwyaf cyffredin bod eu cath yn cuddio neu'n cilio pan glywant dân gwyllt (22%).

Effaith tân gwyllt ar gathod



Mae'r holl ymddygiadau hyn yn arwydd o straen. I gael cyngor am dân gwyllt, a straen mewn cathod ewch i www.cats.org.uk/fireworks

"Mae Cats Protection yn galw ar y llywodraeth i gyfyngu ar y defnydd heb ei gynllunio o dân gwyllt i ganiatáu i berchnogion ragweld arddangosfeydd a gallu cadw eu cathod yn ddiogel, ac i leihau lefel swm uchaf tân gwyllt i helpu i leddfu'r straen i gathod a anifeiliaid eraill."

Stefan Blakiston Moore – Swyddog Eiriolaeth a Chysylltiadau Llywodraeth Cats Protection

www.cats.org.uk/media/7049/tim-fireworks.pdf




³⁵ Cwestiwn a ofynnwyd: A yw'ch cath yn tueddu i ddangos unrhyw un o'r arwyddion canlynol o straen o ganlyniad i glywed tân gwyllt?

Cwmniaeth cathod a heriau i berchnogion

Beth yw'r rhesymau pam bod gan bobl gath?


Y prif reswm a roddir dros fod yn berchen ar gath yw: cwmniaeth ac i leihau straen ac unigrwydd (49%). Mae hyn yn uwch ymhlith perchnogion cathod iau 18-34 oed, gyda 55% yn dweud mai dyma'r prif reswm bod ganddynt gath³⁶.

Mae cwmniaeth yn parhau i fod yn reswm allweddol dros fod yn berchen ar gath/cathod



Mae perchnogion Cymru yn fwy tebygol na pherchnogion y DU o gael cath o ganlyniad bod angen gofalu amdanynt neu eu cartrefu (Cymru 25% v DU 20%).

³⁶ Cwestiwn a ofynnwyd: Beth yw'r prif resymau bod gennych gath/cathod?



"Yn anffodus bu farw ein hen gath ychydig cyn y cyfyngiadau symud cyntaf felly roeddem yn colli'r teimlad o gael cath yn y cartref."

22 oed, Cymru

"Roedd angen cwmni arna i."

26 oed, Cymru

Fe wnaeth cathod ein helpu yn fawr yn ystod y pandemig

Dywed 19% o berchnogion cathod mai'r prif reswm dros gael cath yn eu bywyd yw eu helpu i deimlo llai o straen/pryder. Yn ystod y pandemig mae dod o hyd i ffyrdd o leddfu straen wedi bod yn hanfodol ar gyfer lles.

Mae cyfran y perchnogion sy'n dweud bod eu cath yn eu helpu i leddfu straen fel hyn hyd yn oed yn uwch ymysg perchnogion iau 18-34 oed (23%), pobl sy'n ddi-waith (24%), ac ymhlith y rhai a gafodd gath yn y 12 mis diwethaf (24%).

Cathod yw'r ateb perffaith i osgoi straen: dywed 91% o berchnogion cathod eu bod yn treulio amser yn mwytho eu cath neu'n eistedd gyda'i gilydd bob dydd ac mae tystiolaeth yn dangos bod rhyngweithio rhwng dyn ac anifail o fudd i'r meddwl a'r corff³⁷.

37 Beetz et al, 2012 Psychosocial and psychophysiological effects of human-animal interactions: the possible role of oxytocin



O'r rhai a gafodd gath o ganlyniad i COVID-19, dywed traean (39%) ei fod er mwyn eu helpu i deimlo llai o straen neu bryder.

"Fel prif elusen ail-gartrefu cathod y DU, rydym yn helpu i greu llawer o gysylltiadau anifeiliaid cydymaith gydol oes rhwng cathod a phobl. Rydym yn gwybod bod anifeiliaid anwes yn rhan annatod o'r teulu ac yn destun hapusrwydd i lawer o bobl. Mae'r pandemig wedi taflu goleuni ar y ffyrdd y mae cathod yn cyfoethogi bywydau eu perchnogion a sut maen nhw'n ein helpu ni trwy gyfnodau tywyll iawn."

Mike Elliott, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Maes Cats Protection




Mae cathod yn rhan o'r teulu ac yn bwysig yn ein bywydau bob dydd


Mae hyd yn oed mwy o berchnogion yn nodi bod eu cath yn rhoi rheswm iddyn nhw godi yn y bore³⁸ (60% i fyny o 56%).

Mae perchnogion iau a'r rhai a gafodd gath oherwydd COVID-19 yn gweld bod eu cathod yn fudd gwirioneddol. Cytunodd 65% o bobl ifanc 18-34 oed a 77% o'r rhai a oedd wedi caffael cath oherwydd COVID-19 fod eu cathod yn rhoi rheswm iddynt godi yn y bore.


Mae cath yn rhan o'r teulu




Mae cathod yn creu llawenydd




o berchnogion yn siarad yn rheolaidd â'u cath




o berchnogion yn chwarae gyda'u cath bob dydd



o berchnogion yn siarad llawer am eu cathod



o berchnogion yn rhoi anghenion eu cath o flaen eu hanghenion personol



39 ...Mae fy nghath/cathod yn rhan o fy nheulu

40 ...Mae cael cath/cathod yn dod â llawenydd i fy mywyd

41 ...Rwy'n siarad gyda fy nghath yn aml

42 Cwestiwn a ofynnwyd: Mewn wythnos arferol, pa mor aml ydych chi'n gwneud pob un o'r canlynol gyda'ch cath? Chwarae gyda'n gilydd (ee gyda theganau, peli, peli danteithion, tegan gwialen bysgota ac ati).

43 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno â phob un o'r datganiadau canlynol am gael cath/cathod? Rwy'n siarad am fy nghath/cathod yn aml.

44 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno â phob un o'r datganiadau canlynol am gael cath/cathod? Rwy'n rhoi anghenion fy nghath o flaen yf rhai i.

Mae Cats Protection yn darparu llawer o wasanaethau i berchnogion cathod gan gynnwys gofal cathod a chyingor lles; niwro â gosod microslodyn am bris gostyngol; sgysiau mewn ysgolion a chymunedau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm; cefnogaeth galar; ac ail-gartrefu cathod yn dilyn marwolaeth perchennog.

Am fanylion pellach ewch i dudalen 43 yr adroddiad hwn.

Yn anffodus, i rai pobl yn y DU, nid yw'n bosibl iddyn nhw fod yn berchen ar gath

Er bod maint y sampl yn benodol ar gyfer Cymru yn rhy fach i'w riportio, rydym yn teimlo bod yr ystadegyn canlynol ar gyfer ledled y DU yn dal i atseinio gyda llawer o berchnogion cathod posibl yng Nghymru.

Amcangyfrifir na all 1 filiwn o aelwydydd yn y DU a fyddai'n hoffi bod yn berchen ar gath oherwydd eu bod yn byw mewn llety rhent nad yw'n caniatáu anifeiliaid anwes (5.2% o'r rhai nad ydynt yn berchnogion⁴⁵). Mae Cats Protection yn ymgyrchu i newid hyn, fel y gall pawb fwynhau cwmnïaeth cath. Gellid ailgartrefu 1.6 miliwn yn fwy o gathod yn y DU os byddai POB landlord yn caniatáu i denantiaid gael anifail anwes yn eu heiddo.



⁴⁵ ...Rwy'n rhentu fy nghartref ac ni chaniateir i mi gael cath.



Landlordiaid Purrfect

"Roedd yn anodd iawn dod o hyd i gartref rhent sy'n caniatáu cathod. Byddai'n rhaid chwilio bob dydd, edrych ar yr hyn oedd ar gael a darllen y print mân Yw'r perchennog yn caniatáu anifeiliaid anwes? Y rhan fwyaf o'r amser, na oedd yr ateb⁴⁶."

Laura, rhentwr preifat o Wrecsam

Mae Cats Protection yn darparu adnoddau i landlordiaid sy'n ystyried caniatáu i'w tenantiaid gael cath yn eu heiddo www.cats.org.uk/purrfectlandlords

⁴⁶ Adroddiad Landlordiaid Purrfect t10

Beth yw'r cam nesaf?

Yr hyn sy'n amlwg o'n hadroddiad yw bod ein hangerdd cenedlaethol dros gathod yn parhau i fod mor gryf ag erioed - gyda llawer ohonom yn dibynnu fwy nag erioed ar ein hanifeiliaid anwes am gefnogaeth emosiynol. Rydym wedi gweld grwp sylweddol yn cael cath am y tro cyntaf yn sgil y pandemig, ac maen nhw wedi cael mwy o amser i ymgyswddo â'u cydymaith newydd a phrofi'r llawenydd y gall bod yn berchennog ar gath ei gynnig.

Mae llwyth o berchnogion cathod newydd yn cyflwyno heriau sylweddol. Mae 62,000 o gathod heb eu cofrestru gyda milfeddyg ac mae'r pandemig wedi gweld cwmp yn nifer y perchnogion sy'n ymweld â'r milfeddyg i gael triniaeth reolaidd. Er bod hyn yn rhannol oherwydd y pandemig a gwasanaethau milfeddygol ddim ar gael, mae pryderon fel cost yn dal i chwarae rhan sylweddol.

Mae'r newidiadau a welir yn y modd y mae pobl yn caffael eu cathod hefyd yn peri pryder, gyda'r newid cyffredinol i brynu anifeiliaid anwes ar-lein. Gall y farchnad ar-lein roi cyfle i werthwyr diegwyddor ecsbloetio anifeiliaid anwes a phobl wrth geisio gwneud elw. Gyda pherchnogion yn dweud bod canran uwch o'r cathod y maent yn eu prynu yn rhai 'pedigri', mae'r potensial ar gyfer y broblem hon yn gwaethygu.

Mae CATS Wales 2021 yn gosod gwaelodlin mewn cyfnod eithriadol; wrth inni ymgyswddo â'r 'norm' newydd, mae'n rhaid i ni gydnabod yr effaith y mae sifftiau cymdeithasol mawr yn ei chael nid yn unig ar bobl, ond ar gathod hefyd. Er y gallai rhai o ganfyddiadau CATS Cymru 2021 fod yn ddatblygiad anarferol sy'n gysylltiedig â COVID-19; gall eraill fod yn barhad neu'n ddechrau ar duedd newydd.

Mae'n ddyletswydd ar Cats Protection a'r sector lles anifeiliaid ehangach i ymateb yn rhagweithiol, gan gefnogi'r proffesiwn milfeddygol sy'n cael anhawster gyda chapasiti difrifol a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da yn cyrraedd perchnogion a darpar berchnogion cathod, a allai, yn anfwriadol, ariannu marchnad o brynu a gwerthu cathod sy'n cael eu bridio er mwyn gwneud elw cyflym yn unig.



Crynodeb o ystadegau Cymru

Poblogaeth cathod

- Mae tua 10.8 miliwn o gathod dan berchnogaeth yn y DU yn 2021, sy'n gynydd o 600,000 o 2020. Mae 690,000 o'r cathod hyn yn eiddo i bobl yng Nghymru (i fyny o 610,000, cynnydd o 80,000 o gathod)
- Mae bron i un o bob tri cartref yng Nghymru (32%) yn berchen ar gath
- Mae gan bob cartref o Gymru sy'n berchen ar gathod 1.6 o gathod ar gyfartaledd
- Cyfrannodd y pandemig at y cynnydd hwn mewn perchnogaeth gyda 6% o berchnogion yn dweud bod ganddyn nhw gath am reswm sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r pandemig, fel cael ei rhoi ar ffyrlo neu dreulio mwy o amser gartref yn gyffredinol.
- Yn ôl perchnogion, mae 71% o gathod yn gathod cyffredin, 18% yn gathod pedigri, 5% yn gathod croesfrid. O ran y 7% sy'n weddill, roedd y perchnogion yn ansicr pa frid yw eu cath
 - Dros amser, mae canran y cathod y mae perchnogion yn eu cael ac yn credu eu bod yn gath pedigri wedi cynyddu:
 - Cafodd 16% o gathod a gafwyd fwy na phum mlynedd yn ôl eu hystyried yn gath pedigri o gymharu â 26% o gathod a gafwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
 - Roedd 74% o'r cathod a gafwyd fwy na phum mlynedd yn ôl yn gathod cyffredin, o gymharu â 61% yn y 12 mis diwethaf

Y farchnad gathod

- Yn gyffredinol, mae cathod dan berchnogaeth yn cael eu mabwysiadu o ganolfannau achub yn y DU (26%), eu prynu (21%), neu mae pobl yn eu cael gan gymydog, aelod o'r teulu neu ffrind (19%)

Niwtro a gosod microsglodyn

- Mae 90% o'r holl gathod sy'n eiddo i bobl yn cael eu niwtro
- Amcangyfrifwn nad yw 0.1 miliwn o gathod wedi cael eu niwtro
- Unwaith mae cath yn bedwar mis oed (y cyfnod pan maent yn cyrraedd y glasoed), mae Cats Protection yn argymhell y dylid eu niwtro
- Yn galonogol, cododd nifer y cathod a gafodd eu niwtro pan yn iau na pedwar mis oed o 16% yn 2020 i 18% yn 2021, cynnydd i'w groesawu yn y proffesiwn milfeddygol o niwtro cyn bod cath yn cyrraedd cyfnod y glasoed.
- Amcangyfrifir bod gan 0.5 miliwn o gathod ficrosglodyn (69%) a does gan 0.2 miliwn o gathod ddim microsglodyn (27%). Roedd perchnogion y 4% o gathod sy'n weddill yn ansicr a oedd gan eu cath ficrosglodyn
- Dywedodd 90% o berchnogion cathod sydd a microsglodyn wrthym fod y manylion cyswllt a gofrestrwyd i'r sglodyn yn gyfredol

Iechyd a deiet

- Dywed 79% o berchnogion nad oes gan eu cathod unrhyw gyflyrau penodol sydd wedi'u diagnosis. Dywed 18% o berchnogion fod gan eu cath o leiaf un cyflwr iechyd. Gordewdra yw'r cyflwr amlycaf (3%)
- Mae 91% o'r cathod sy'n eiddo wedi eu cofrestru gyda milfeddyg. Tra bod 48% o berchnogion yn dweud eu bod yn ymweld â'r milfeddyg bob blwyddyn, gostyngodd hyn i 38% yn ystod y pandemig, sy'n golygu nad yw oddeutu 0.4 miliwn o gathod yn ymweld â'r milfeddyg yn rheolaidd.
- Mae gan 39% o berchnogion cathod yswiriant anifeiliaid anwes, o'i gymharu â 37% yn 2020. Mae'r cynnydd wedi cael ei amlygu gan lawer mwy o berchnogion cathod yn y grŵp oedran 18-34 yn prynu yswiriant
- Dywed 63% o berchnogion fod eu cath wedi cael y brechiadau diweddaraf, o gymharu â 71% yn 2020, a allai fod yn gysylltiedig â'r mynediad cyfyngedig i filfeddygfeydd yn ystod y pandemig
- Mae 32% o berchnogion yn credu bod eu cathod dros eu pwysau, tra bod milfeddygon o'r farn bod tua 44% o gathod dros eu pwysau

Y rôl y mae cathod yn ei chwarae yn ein bywydau

- Y prif resymau a roddodd pobl dros fabwysiadu cathod oedd cwmnïaeth, lleihau straen ac unigrwydd (49%). Roedd y rhesymau hyn yn arbennig o boblogaidd yn y grŵp oedran 18-34 (55%)
- Mae 60% o berchnogion yn dweud bod eu cath yn rhoi rheswm iddyn nhw godi yn y bore
- Mae 87% o berchnogion yn siarad â'u cath yn rheolaidd
- Mae 62% o berchnogion yn chwarae gemau â'u cath bob dydd
- Dywed 60% o berchnogion eu bod yn rhoi anghenion eu cathod o flaen eu hanghenion eu hunain

Bygythiadau i ddiogelwch cathod

- Dim ond 55% o berchnogion cathod sy'n ymwybodol bod liliau'n wenwynig i gathod
- Nodwyd mai damweiniau traffig ar y ffyrdd oedd yr achos pennaf am 4% o gathod yn cael eu hanafu
- Mae 51% o berchnogion yn dweud bod tân gwyllt yn effeithio'n andwyol ar eu cath mewn rhyw ffordd, gan gynnwys cuddio, rhedeg i ffwrdd neu'n fwy cynhyrfus

Materion rhent

- Amcangyfrifir yr hoffai 1 miliwn o aelwydydd ledled y DU gael cath, ond ni allant wneud hynny oherwydd eu bod mewn eiddo rhent
- Yn seiliedig ar nifer cyfartalog y cathod fesul cartref, mae hyn yn golygu y byddai modd rhoi cartref i 1.6 miliwn o gathod yn y DU pe bai pob landlord yn caniatáu anifeiliaid anwes yn eu heiddo rhent

Gwasanaethau Cats Protection

Gwarcheidwaid Cathod - gwasanaeth am ddim gyda'r nod o roi tawelwch meddwl i berthnogion cathod sy'n poeni am yr hyn a allai ddigwydd pe byddent yn marw cyn eu cath.

www.cats.org.uk/catguardians or 01825 741 291

Paws to Listen - gwasanaeth cymorth galar am ddim sy'n cael ei redeg gan gynghorwyr gwirfoddol sydd wedi'u hyfforddi, ar gyfer y rheini sy'n delio â cholli eu cath p'un ai trwy farwolaeth, mynd ar goll neu wahanu.

www.cats.org.uk/what-we-do/grief/paws-to-listen or 0800 024 94 94

Sgyrsiau addysg - sgyrsiau am ddim ag ysgolion am y cwricwlwm, a grwpiau cymunedol, yn cynghori oedolion a phlant am ymddygiad cathod a sut i fod yn berchennog anifeiliaid anwes cyfrifol.

www.cats.org.uk/education

Cymorth gyda niwtro - rhoi cymorth ariannol i filoedd o bobl bob blwyddyn i niwtro eu cath.

www.cats.org.uk/neutering

Cyngor cyffredinol - llinell gymorth i'r rheini ag unrhyw gwestiynau ynghylch eu cathod eu hunain, neu gathod yn gyffredinol.

www.cats.org.uk/contact-us or 03000 12 12 12



Am wybodaeth bellach cysylltwch â:
www.cats.org.uk/stats

Elusen gofrestredig 203644 (Cymru a Lloegr) a 5C037711 (Yr Alban)